CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Protocol Mynediad Teg

## Gwasanaeth Derbyn Disgyblion

Medi 2022

**Protocol Mynediad Teg**

**1. Cyflwyniad**

Mae'r Cod Derbyn Disgyblion (Dogfen Cod Statudol rhif: 005/2013, 7/2013) yn nodi bod rhaid i'r holl Awdurdodau Lleol roi protocolau priodol ar waith ar gyfer derbyn disgyblion y mae hi'n anodd dod o hyd i le iddyn nhw. Nod hyn yw sicrhau bod plant sydd heb eu lleoli, yn enwedig y plant hynny sydd fwyaf agored i niwed, yn cael cynnig lle mewn ysgol yn brydlon. Yn unol â'r gofyniad yma, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi llunio Protocol Mynediad Teg.

Yn Rhondda Cynon Taf, caiff y Protocol Mynediad Teg ei weinyddu ar gyfer ysgolion uwchradd drwy Banel Protocol Mynediad Teg. Bydd y panel yma'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgolion a'r Awdurdod Lleol. Bydd Gwasanaeth Derbyn Disgyblion yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am swyddogaethau'r Panel Protocol Mynediad Teg ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd sydd angen eu lleoli drwy'r Protocol Mynediad Teg. Bydd e'n gwneud hyn mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.

Bydd y rhan fwyaf o achosion o dderbyn disgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol yn dal i gael eu prosesu drwy'r drefn arferol. Serch hynny, caiff achosion mwy cymhleth o drosglwyddo disgyblion i addysg y brif ffrwd yn ystod y flwyddyn eu cyfeirio at y Panel Protocol Mynediad Teg. Yn gyffredinol, bydd atgyfeiriadau mwy cymhleth yn ymwneud â disgyblion sy’n agored i niwed sy'n debygol o gael trafferth wrth ddod o hyd i le mewn ysgol uwchradd. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys plant a phobl ifainc sydd:

- wedi'u gwahardd o'r ysgol yn barhaol;
- angen Symudiad wedi'i Reoli (edrychwch ar y Protocol Symudiad wedi'i Reoli am ragor o wybodaeth);
- wedi bod allan o fyd addysg am gyfnod sylweddol o amser (o leiaf dau fis neu'n hirach) neu wedi wynebu problemau difrifol o ran presenoldeb er gwaethaf ymgysylltiad â'r Gwasanaeth Mynychu’r Ysgol a Lles ac angen dechrau o'r newydd mewn ysgol arall;
- mewn Uned Atgyfeirio Disgyblion ar hyn o bryd, ac angen cael eu hintegreiddio yn ôl i safle prif ffrwd;
- yn blant i Sipsiwn neu Deithwyr;
- wedi bod yn ymwneud â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac mae angen newid mewn lleoliad addysgol;
- yn dychwelyd i'r ysgol o'r system gyfiawnder troseddol ac angen cael eu hintegreiddio yn ôl i addysg y brif ffrwd;
- yn derbyn gofal ac sydd ag anghenion sylweddol;
- ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau sylweddol, ond sydd ddim â datganiad.

Fel rheol, caiff y broses derbyn disgyblion sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig ei chynnwys yn Neddf Addysg 1996 yn ogystal â Chod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002. Mae Adran 324 o Ddeddf Addysg 1996 yn gofyn i ysgol a gynhelir sy wedi'i henwi mewn datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, i dderbyn y plentyn dan sylw. Yn yr achosion yma, does dim modd i ysgolion wrthod derbyn y plentyn, hyd yn oed os yw hynny'n golygu y byddan nhw'n mynd dros eu nifer derbyn disgyblion. Yng ngoleuni hyn a'r cyfrifoldebau statudol sy'n ymwneud â diwallu anghenion disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, dydy ystyried anghenion disgyblion sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig ddim yn rhan o gylch gorchwyl y Panel Mynediad Teg. Mae disgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) yn dod o fewn cylch gwaith FAPP lle nad oes ysgol wedi'i henwi yn yr CDU.

**2. Panel Protocol Mynediad Teg (FAPP)**

Bydd y Panel Protocol Mynediad Teg yn cynnwys cynrychiolwyr o blith Uwch Arweinwyr pob ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf. Caiff y cynrychiolwyr eu henwebu gan eu Penaethiaid a bydd yr aelodau'n cylchdroi fel bod modd sicrhau bod modd i bawb fod yn bresennol yn y cyfarfodydd. Rhaid i'r cynrychiolwyr ar y panel gael caniatâd eu Pennaeth i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â lleoli'r disgyblion a gaiff eu hystyried yng nghyfarfodydd y panel. Ddylai'r broses o wneud penderfyniadau ddim cael ei gohirio. Yn ogystal â hynny, dylai'r panel gynnwys uwch gynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol, neu swyddogion dynodedig o amrywiaeth o feysydd gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 17 o gynrychiolwyr o ysgolion uwchradd / pob oed (Pennaeth neu uwch arweinydd sydd wedi'i enwebu)
- Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant
- Y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles - Pennaeth y Gwasanaeth (neu uwch swyddog sydd wedi'i enwebu)
- Y Gwasanaeth Derbyn Disgyblion - Cydlynydd Trosglwyddo Disgyblion yn ystod y Flwyddyn
- Y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad - Athro Atal Gwaharddiadau/Ymyrryd

Y nifer lleiaf o aelodau'r panel sydd eu hangen i sicrhau cworwm yw 50%, hynny yw, 11 o aelodau.

Mae modd i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau fod yn rhan o'r broses pan fo hynny'n briodol. Serch hynny, does dim modd iddyn nhw wneud unrhyw beth ond rhoi cyngor.

Mae'r panel yma ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn unig. Serch hynny, mae modd i rieni/cynhalwyr roi eu barn yn rhan o'r broses atgyfeirio disgyblion.

Dylai'r panel gynnwys cadeirydd wedi'i enwebu a dylai'r panel benderfynu pa mor aml y dylai'r rôl yma gael ei chyfnewid. Bydd y Gwasanaeth Derbyn Disgyblion yn trefnu holl gyfarfodydd y panel bob tair wythnos a chaiff y dyddiadau eu darparu fesul blwyddyn. Caiff y cyfarfodydd eu cynnal yn Nhŷ Trevithick. Byddan nhw'n dechrau am 8am.

**3. Egwyddorion sylfaenol**
Mae gofyn i bob ysgol uwchradd / carfan uwchradd pob ysgol pob oed yn y brif ffrwd gyfrannu at roi'r Protocol Mynediad Teg a'r Panel Protocol Mynediad Teg ar waith yn effeithiol.

Caiff penderfyniadau'r panel eu seilio ar ofynion cyfreithiol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd holl aelodau'r panel yn rhoi ystyriaeth briodol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fyddan nhw ddim yn gwrthod derbyn disgyblion am eu bod nhw wedi ymddwyn yn heriol mewn sefydliad arall.

Caiff patrwm y lleoliadau ei gofnodi a'i fonitro'n agos, a chaiff yr wybodaeth ei hadrodd yn ôl fel sy'n briodol. Fydd dim gofyn i unrhyw ysgol dderbyn nifer anghymesur o ddisgyblion. Bydd y broses o wneud penderfyniadau yn ystyried maint yr ysgol a'r gymhareb o ran disgyblion sydd ag anghenion sylweddol. Chaiff y data o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol a disgyblion agored i niwed ddim ei rannu mewn cyfarfodydd. Serch hynny, bydd y penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gaiff ei rhannu, sgyrsiau proffesiynol gonest ac ymddiriedaeth.

Bydd yr holl leoliadau a gaiff eu cytuno ar ôl rhoi'r Protocol Mynediad Teg ar waith yn cael eu monitro er mwyn sicrhau y caiff disgyblion sy'n agored i niwed, ac sy'n bodloni meini prawf y Protocol Agored i Niwed, eu dyrannu'n gyfartal. Fydd data trosglwyddo disgyblion yn ystod y flwyddyn hanesyddol ar gyfer achosion cymhleth a gafodd eu cytuno cyn mis Mai 2018 ddim yn cael eu hystyried yn y cyfarfodydd. Bydd pob lleoliad sy wedi'i gytuno yn y Panel Mynediad Teg o fis Mai 2018 ymlaen yn cael ei ystyried a bydd gofyn i bob ysgol gymryd nifer teg o ddisgyblion. Serch hynny, byddwn ni'n rhoi ystyriaeth i wybodaeth gyd-destunol lle bo'n briodol (e.e. niferoedd y disgyblion ar leoliadau deuol o'r Uned Atgyfeirio Disgyblion a mynediad at ddarpariaeth ddosbarthiadau cynnal dysgu ar safle'r ysgol). Fydd data proffilio disgyblion sy'n agored i niwed a nifer y disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ar yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ddim yn cael eu defnyddio i bennu lleoliadau. Yn hytrach, bydd y broses yn canolbwyntio ar sicrhau bod ysgolion yn derbyn nifer mwy cyfartal o ddisgyblion sy'n bodloni meini prawf y Protocol Mynediad Teg.

Mae angen i holl aelodau'r Panel Mynediad Teg sicrhau bod y plant sy'n cael eu hystyried yn cael eu derbyn gan ysgol addas cyn gynted ag y bo modd. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys derbyn plant i ysgolion sy'n llawn yn barod os mai'r ysgol dan sylw yw'r ysgol fwyaf addas ar gyfer y plentyn neu'r unigolyn ifanc hwnnw. Nod y panel yw sicrhau cydbwysedd rhwng dod o hyd i le mewn ysgol sydd ddim yn llawn, neu'n wynebu amgylchiadau heriol, a hynny'n gyflym, a chanfod lle mewn ysgol sy'n addas i'r plentyn. O ganlyniad i hynny, dylai'r protocol sicrhau bod dim gofyn i unrhyw ysgol, gan gynnwys y rheiny sydd â lleoedd ar gael, dderbyn nifer ormodol neu afresymol o blant sydd wedi'u gwahardd o ysgolion eraill.

Rydyn ni'n cydnabod bod ysgolion sydd ag elfen grefyddol yn gweithredu fel eu hawdurdod derbyn disgyblion eu hunain. Mae modd iddyn nhw ddangos ffafriaeth i aelodau o grefydd neu ffydd benodol wrth dderbyn disgyblion, cyn belled â bod hynny ddim yn mynd yn groes i ddeddfwriaethau eraill fel deddfwriaethau

cydraddoldeb neu ofynion gorfodol y Cod Derbyn Disgyblion. Rhaid i ysgolion ffydd beidio â chadw lleoedd ar agor os does gyda nhw ddim digon o ymgeiswyr o'u ffydd eu hunain a bod teuluoedd eraill wedi gwneud cais am le yn yr ysgol. Yng ngoleuni'r trefniadau derbyn disgyblion yn y sector yma, rydyn ni'n argymell bod y Panel Mynediad Teg yn ystyried anghenion disgyblion ac yn cytuno, 'mewn egwyddor', i osod disgyblion mewn ysgolion ffydd os yw pwyllgor derbyn disgyblion y corff llywodraethu'n caniatáu hynny. Os bydd ysgol ffydd yn gwrthod cynnig lle i ddisgybl, rhaid i'r awdurdod lleol gael gwybod am y rheswm dros hynny ar unwaith. Dylai'r wybodaeth yma gael ei rhannu ag aelodau'r panel yng nghyfarfod nesaf y Panel Protocol Mynediad Teg.

Os yw plentyn wedi'i wahardd o ddwy ysgol neu ragor, a hynny'n barhaol, mae dal modd i'w rieni nodi pa ysgol a fyddai orau gyda nhw a gofyn i'w plentyn gael ei gyfeirio at y Panel Mynediad Teg i'w ystyried. Serch hynny, caiff y gofyniad i gytuno â dewisiadau'r rhieni yn dilyn dau waharddiad parhaol neu ragor ei ddileu am ddwy flynedd o ddyddiad y gwaharddiad diweddaraf. Serch hynny, mae eithriadau i'r rheol yma. Mae'r rhain yn ymwneud â phlant sydd â datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig; plant a gafodd eu gwahardd o'r ysgol cyn cyrraedd oedran addysg gorfodol; plant a gafodd eu derbyn yn ôl i'r ysgol yn dilyn gwaharddiad parhaol a phlant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal.

Caiff yr holl benderfyniadau eu gwneud mewn modd teg a thryloyw, gan ganolbwyntio ar sicrhau ymyriad cynnar a lleoli disgyblion yn gyflym lle bo modd gwneud hynny. Os yw'r panel yn penderfynu cynnig lle yn ystod cyfarfod, rhaid glynu at y penderfyniad hwnnw, hyd yn oed os does dim cynrychiolydd o'r ysgol ar y panel.

Er mwyn sicrhau cysondeb, rhaid cyfeirio'r holl geisiadau derbyn disgyblion yn ystod y flwyddyn ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n bodloni meini prawf y Protocol Mynediad Teg at y Panel Protocol Mynediad Teg. Yn achos disgyblion â phroblemau presenoldeb difrifol, rhaid darparu tystiolaeth gadarn o gyfranogiad y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Os dydy ysgol ddim wedi'i chynrychioli ar y Panel Protocol Mynediad Teg, mae modd parhau i gytuno ar y lleoliad os yw'r panel o'r farn mai'r ysgol honno yw'r ysgol fwyaf addas ar gyfer y plentyn neu berson ifanc dan sylw.

Os bydd cais am dderbyn disgybl yn bodloni meini prawf y Protocol Mynediad Teg, rhaid i rieni/cynhalwyr gael gwybod am y broses yn ogystal â'u hawl i gyflwyno cais 'arferol' pe hoffen nhw wneud hynny a'u hawl i gyflwyno apêl yn unol â'r Cod Derbyn Disgyblion. Dyletswydd corff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir, a'r Awdurdod Lleol yn Awdurdod Derbyn ar ei chyfer, yw rhoi ar waith unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod Derbyn ynglŷn â derbyn disgyblion cyn gynted ag y bo modd.

**4. Prosesau'r Panel**

Mae modd i ysgolion, Unedau Atgyfeirio Disgyblion ac Awdurdodau Lleol gyfeirio achosion i'w hystyried o dan y Protocol Mynediad Teg. Serch hynny, rhaid sicrhau bod y rhieni yn deall y broses ac wedi cydsynio cyn cyflwyno'r cais. Fydd unrhyw atgyfeiriad heb lofnod rhiant a'r cytundeb i rannu gwybodaeth gyfrinachol ddim yn cael ei ystyried.

Mae'r manylion am brosesau'r Panel Protocol Mynediad Teg wedi'u nodi yn Atodiad 1. Yn yr un modd â'r drefn ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 ac 11, rhaid i ysgolion, Unedau Atgyfeirio Disgyblion a swyddogion yr awdurdod lleol sy'n awyddus i atgyfeirio disgybl o dan y Protocol Mynediad Teg anfon ffurflen Bwriad i Drosglwyddo (gweler Atodiad 2) yn ogystal â dogfennau ategol wedi'u diogelu â chyfrinair mewn e-bost wedi'i ddiogelu at angie.williams-roberts@rctcbc.gov.uk**.** Dylai pob atgyfeiriad ac unrhyw ddogfennau ategol gael eu hanfon ymlaen i'w hystyried 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Panel Protocol Mynediad Teg bob tair wythnos.

Ar gyfer disgyblion sydd wedi'u heithrio'n barhaol, bydd gofyn i ysgolion lenwi'r Ffurflen Bwriad i Drosglwyddo a'i he-bostio'n ddiogel at michael.faulds@rctcbc.gov.uk, a hynny cyn Cyfarfod Disgyblu'r llywodraethwyr. Dylai unrhyw ddogfennau atodol gael eu diogelu â chyfrinair. Bydd yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrryd yn gyfrifol am drefnu bod y disgybl a'i rieni yn llenwi eu rhan nhw o'r Ffurflen Bwriad i Drosglwyddo. Unwaith i'r rhieni gydsynio i'r broses, caiff yr atgyfeiriad ei gyflwyno i'r Panel Protocol Mynediad Teg.

Caiff yr holl ffurflenni Bwriad i Drosglwyddo eu hystyried mewn Cyfarfod Atgyfeirio sy'n cynnwys Cydlynydd Trosglwyddo yn ystod y Flwyddyn yr Awdurdod Lleol, yr Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrryd ac uwch swyddog y Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Dylai gynnwys Pennaeth sy'n gynrychiolydd ar y Panel Protocol Mynediad Teg hefyd yn y Panel Atgyfeirio FAPP ar sail gylchdro. Bydd angen i Swyddogion gytuno p'un a oes angen cyflwyno'r achos ger bron y Panel Protocol Mynediad Teg neu p'un a ddylai hyn gael ei brosesu'n rhan o'r broses derbyn disgyblion arferol (neu broses arall) yn ystod y flwyddyn. Caiff cofnodion o'r cyfarfod eu cadw at ddibenion tryloywder.

Caiff yr holl atgyfeiriadau sy’n cael eu derbyn ar ôl y terfyn amser ar gyfer atgyfeirio eu gohirio nes cyfarfod nesaf y panel. Caiff manylion yr agenda eu dosbarthu i holl aelodau'r panel drwy e-bost diogel, a hynny dri diwrnod cyn dyddiad cyfarfod y panel. Bydd ffurflenni atgyfeirio a thystiolaeth ategol yn cael eu hanfon trwy e-bost diogel, wedi'i ddiogelu gan gyfrinair, i'r ysgolion sy wedi'u nodi fel y tri dewis cyntaf ar y ffurflen atgyfeirio. Bydd gofyn i bob aelod o'r panel ddod â'r wybodaeth sydd wedi'i dosbarthu i'r cyfarfod. Fydd dim copïau papur o'r wybodaeth ar gael yn y cyfarfod.

Dylai'r corff sy'n cyfeirio'r disgybl at y Panel Protocol Mynediad Teg fod yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn rhannu gwybodaeth a dylai aelodau'r panel gytuno ar leoliad yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gaiff eu cyflwyno. Mae modd gwahodd asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol sydd ddim fel arfer yn cael eu cynrychioli ar y panel i'r cyfarfod, ond dim ond er mwyn rhoi cyngor. Serch hynny, dylai'r Athro Trosglwyddo Disgyblion yn ystod y Flwyddyn sicrhau bod caniatâd i'r aelodau ychwanegol yma ymuno â'r panel o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod

Ar ôl cytuno ar leoliad, dylai'r panel gytuno ar ddyddiad arfaethedig ar gyfer y cyfarfod cyn derbyn y disgybl yn ogystal â chadarnhau'r dyddiad dechrau. Dylai'r panel lynu at y dyddiad dechrau sydd wedi'i nodi yn y panel a dylai'r lleoliad

ddechrau cyn gynted â phosibl, heb fod yn hirach na 15 diwrnod ar ôl i'r panel gyfarfod.

Bydd y Gwasanaeth Derbyn Disgyblion yn rhoi gwybod i'r rhieni/cynhalwyr am y cynnig am le mewn ysgol o fewn 2 ddiwrnod gwaith, a hynny ar lafar. Os yw'r rhieni yn cytuno â'r lleoliad, bydd y Gwasanaeth Derbyn Disgyblion yn cydweithio â'r uwch reolwyr yn yr ysgol sy'n derbyn y disgybl. Bydd disgwyl iddyn nhw gynnal cyfarfod yn brydlon. Dylai rhieni a chynhalwyr gofio bod angen llenwi Ffurflen Gais Trosglwyddo Disgyblion yn ystod y Flwyddyn er mwyn bwrw ymlaen â'r broses, ond ddylai hyn ddim peri oedi o ran y cyfarfod cyn derbyn y disgybl. Unwaith i'r Gwasanaeth Derbyn Disgyblion dderbyn y Ffurflen Gais Trosglwyddo Disgyblion yn ystod y Flwyddyn, caiff y lleoliad ei gadarnhau ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Dylai anghenion cymorth y disgyblion gael eu trafod a'u cytuno arnyn nhw yn ystod y cyfarfod cyn derbyn y disgybl. Nod hyn yw cytuno ar dargedau, ymyriadau a chymorth priodol.

Pan gaiff lleoliad ei gytuno yn rhan o symudiad wedi'i reoli, dylai pawb sy'n berthnasol ddilyn y prosesau sydd wedi'u hamlinellu yn y Protocol Symudiad wedi'i Reoli yn ogystal â glynu at yr amserlenni.

**5. Monitro ac adolygu**

Bydd egwyddorion craidd y protocol yma'n sail i'r broses o wneud penderfyniadau. Caiff yr holl ddisgyblion sy’n cael eu hystyried gan banel gynnig lle pendant mewn ysgol oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn galw am ragor o wybodaeth. Serch hynny, dylai ysgolion osgoi unrhyw oedi diangen. Dylai plant neu bobl ifainc sydd wedi'u hatgyfeirio at y panel gael cynnig lle mewn ysgol o fewn pedair wythnos ar ôl i'r panel ystyried y mater am y tro cyntaf.

Rhaid i'r cadeirydd adolygu'r cofnodion blaenorol a'r camau gweithredu sydd wedi'u cytuno ar ddechrau holl gyfarfodydd y panel. Dylai fod modd iddo brofi bod y panel yn glynu at y protocol yma. Dylai holl aelodau'r panel gael eu dwyn i gyfrif am y camau perthnasol yma.

Bydd y polisi yma yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol.